Senedd Cymru
**Comisiwn y Senedd**
—
Welsh Parliament
**Senedd Commission**

Peredur Owen Griffiths AS
Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid

Drwy e-bost

23 Mehefin 2023

Annwyl Peredur

Diolch am eich llythyr dyddiedig 4 Mai 2023 a'r cyfle i gyfrannu at yr Adolygiad o'r Datganiad o Egwyddorion.

Mae Comisiwn y Senedd yn cefnogi'r Datganiad o Egwyddorion fel ffordd effeithiol i ddatblygu cynigion cyllidebol, a gwneud y cynigion hynny. Fel Comisiwn byddwn yn cael papur gan Fwrdd Gweithredol Comisiwn y Senedd yn ein cyfarfod ym mis Gorffennaf. Mae'r papur hwn yn nodi'n fanwl sut y bydd adnoddau'n cael eu blaenoriaethu a'u rheoli dros y tymor canolig (dros dair blynedd) ac mae'r Datganiad o Egwyddorion wrth wraidd y dull gweithredu hwn.

Mae'r dull cynllunio tymor canolig hwn wedi'i nodi yn Fframwaith Darparu Adnoddau Tymor Canolig Comisiwn y Senedd a drafodwyd gan Fwrdd Gweithredol Comisiwn y Senedd ar 16 Mehefin. Bydd y Fframwaith Darparu Adnoddau Tymor Canolig hwn yn ein galluogi ymhellach i ddangos bod y Comisiwn yn cadw at y Datganiadau o Egwyddorion.

O edrych ar wariant a chyllid y dyfodol o safbwynt tymor canolig, bydd yn llawer mwy tebygol y gall Cyrff a Ariennir yn Uniongyrchol gynllunio a blaenoriaethu dyrannu adnoddau a byddai'n ddefnyddiol pe bai amcangyfrifon cyllid ar gael yn y dyfodol i alluogi'r cyrff hynny i fodloni'r Datganiad o Egwyddorion yn well.

Mae gan y Cyrff a Ariennir yn Uniongyrchol gyfrifoldebau statudol ac mae gan bob un rôl benodol o fewn fframwaith ehangach ar gyfer goruchwylio Llywodraeth Cymru a'r sector cyhoeddus yn fwy eang yng Nghymru. Byddai'n ddefnyddiol pe bai hyn yn cael ei gydnabod yn gryfach o fewn y Datganiad o Egwyddorion a phe bai'r cyrff, oherwydd eu hangen i weithredu'n annibynnol ar y weithrediaeth, yn cael cyllideb benodol a phroses amcangyfrifon wedi'i nodi.

Gwnaethoch hefyd ofyn am sylwadau ar ein barn ar y gyllideb atodol a'r broses amcangyfrifon. Mae'r gyllideb atodol a'r broses amcangyfrifon yn fecanwaith defnyddiol a hyblyg i ddelio â materion yn ystod y flwyddyn. Gan nad oes modd i'r Cyrff a Ariennir yn Uniongyrchol reoli pwysau sylweddol annisgwyl yn ystod y flwyddyn, fel cynnal cronfeydd wrth gefn, mae'n hanfodol

cadarnhau canlyniad cyllidebau atodol a gyflwynwyd er mwyn rheoli adnoddau'n effeithiol yn ystod y flwyddyn. At hynny, mae angen cydnabod bod cyllidebau atodol y cyrff yn destun yr amserlen ar gyfer cyllideb atodol gyffredinol Llywodraeth Cymru y maent yn rhan ohoni.

Fel y dywedais yn gynharach, o wella’r dull o gyllidebu yn y tymor canolig a rhoi mwy o sicrwydd ar gyllid yn y blynyddoedd i ddod, byddai’n helpu i liniaru pwysau annisgwyl ac yn ein gwneud yn llai dibynnol ar y gyllideb atodol a'r broses amcangyfrifon.

Gobeithio bod y sylwadau hyn o gymorth.

Yn gywir

Ken Skates AS

copi at Gomisiynwyr y Senedd, Manon Antoniazzi, Ed Williams

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg | We welcome correspondence in Welsh or English.